**Telerau ac Amodau ar gyfer defnyddio Henebion**

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Gweinidogion Cymru. Ei nod yw hyrwyddo cadwraeth a gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol Cymru.

1. Bydd y Llogwr yn ymrwymo i sicrhau indemniad llwyr ac effeithiol ar gyfer Gweinidogion Cymru yn erbyn pob gweithred, achos, cost, hawliad, gofyniad ac atebolrwydd posibl (waeth a yw'n deillio o ddifrod, anghyfleustra neu aflonyddwch) sy'n ganlyniad i neu sy'n codi mewn unrhyw fodd o neu mewn cysylltiad â ffilmio neu'r weithred o logi a nodir isod ("y Gweithgaredd") yn yr Heneb i'r graddau y bu iddo gael ei achosi'n uniongyrchol gan esgeulustod, camgymeriad neu anweithred y Llogwr.

2. Bydd y Llogwr hefyd yn ymrwymo i sicrhau indemniad llwyr ac effeithiol ar gyfer Gweinidogion Cymru yn erbyn niwed neu anaf a achosir i unrhyw berson sy'n codi mewn unrhyw fodd o neu mewn cysylltiad â'r Gweithgaredd yn yr Heneb i'r graddau y bu iddo gael ei achosi'n uniongyrchol gan esgeulustod, camgymeriad neu anweithred y Llogwr.

3. Bydd y Llogwr yn ymrwymo i beidio ag achosi neu ganiatáu i unrhyw ddifrod gael ei achosi i'r Heneb ac yn sicrhau indemniad llwyr ac effeithiol yn erbyn pob atebolrwydd, cost, hawl a gofyniad sy'n ganlyniad i neu sy'n codi mewn unrhyw fodd o neu mewn cysylltiad ag unrhyw ddifrod a achosir i'r Heneb yn ystod eu cyfnod mynediad, i'r graddau y bydd yn ganlyniad uniongyrchol i weithred esgeulus neu anweithred y Llogwr neu ei weithwyr cyflogedig neu asiantau. Bydd y Llogwr hefyd yn atebol am gostau a threuliau cyfreithiol sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw golled neu niwed neu anaf personol (gan gynnwys marwolaeth) sy'n codi o neu sy'n gysylltiedig â'r Gweithgaredd i'r graddau y mae'r golled, niwed neu anaf wedi'u hachosi gan weithred esgeulus neu fwriadol neu anweithred y Llogwr neu ei weithwyr cyflogedig neu asiantau.

4. Bydd y Llogwr yn defnyddio'r Heneb ar eu menter eu hunain ac ni fydd dim atebolrwydd yn gysylltiedig â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod i eiddo'r Llogwr, nac i unrhyw westeion y Llogwr, yn yr Heneb neu mewn unrhyw fodd sy'n deillio o gyflwr yr Heneb AC EITHRIO na fydd y Llogwr na Gweinidogion Cymru'n cyfyngu ar eu hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir trwy esgeulustod neu unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio neu ei gyfyngu o dan gyfraith gymwys.

5. Rhaid gwneud yr holl drefniadau ymlaen llaw gyda ac yn unol â boddhad Cadw a heb ddwyn costau ar Cadw, cyn y gellir cynnal y gweithgaredd yn yr Heneb. Os bydd Cadw'n gweld bod angen darparu unrhyw wasanaeth neu wneud darpariaethau arbennig mewn cysylltiad â'r gweithgaredd, ar gais y llogwr ai peidio, bydd yn ofynnol i'r llogwr ad-dalu'r cyfryw gostau hynny i Cadw.

6. Ar ôl i Cadw gymeradwyo'r gweithgaredd, rhaid i'r llogwr drefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus llawn. Rhaid i hyn gynnwys yswiriant ar gyfer esgeulustod y Llogwr a niwed damweiniol i'r Heneb, gyda'r cyfyngiad lleiaf yn yswiriant gwerth £5 miliwn. Rhaid i'r llogwr ddarparu copi o'r yswiriant i Cadw cyn y gellir cynnal y digwyddiad.

7. Ni ddylid cysylltu unrhyw offer i waith maen yr Heneb. Rhaid i Cadw gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw geisiadau i begio offer i mewn i'r ddaear cyn y bydd y gweithgaredd yn digwydd.

8. Ni chaiff y llogwr ddefnyddio'r Heneb ar gyfer unrhyw weithgaredd anghyfreithlon, peryglus tramgwyddus anghyfiawnadwy neu sydd fel arall yn amhriodol; ar gyfer ffilmio unrhyw olygfeydd o natur rywiol, dramgwyddus neu amhriodol, a phan gânt eu barnu yn erbyn safonau derbyniol cyffredinol rhaid bodloni'r cyfryw safonau neu sy'n debygol o niweidio enw da Gweinidogion Cymru'n annheg neu'n wallus.

9. Rhaid i'r llogwr bob amser ddilyn cyfarwyddiadau'r ceidwad, wrth ffilmio neu gymryd ffotograffau mewn unrhyw ddigwyddiad neu gloddiad yn yr Heneb. Pan fo Cadw wedi ei gwneud yn ofynnol cael trwyddedau ychwanegol ar gyfer perfformio cerddoriaeth neu werthu alcohol, mae'r llogwr yn gyfrifol am sicrhau caffael y cyfryw drwyddedau hynny ac am ddarparu copïau i Cadw ymlaen llaw cyn cynnal y digwyddiad.

10. Rhaid i'r llogwr ofyn caniatâd i arddangos deunyddiau hysbysebu yn yr heneb. Mae Cadw'n cadw'r hawl i wrthod hysbysebion os gwelir eu bod yn amhriodol neu'n niweidio enw da Gweinidogion Cymru.

11. Os cynhelir y digwyddiad yn ystod oriau agor arferol, bydd y cyhoedd yn parhau i gael mynediad i'r Heneb. Rhaid sicrhau'r ymyrraeth leiaf bosibl ar fynediad arferol i staff a'r cyhoedd i'r ardaloedd sy'n cael eu ffilmio a chytuno ar hynny ymlaen llaw gyda Cadw.

12. Os cynhelir y gweithgaredd y tu allan i oriau agor arferol, gwneir trefniadau i dalu costau ar gyfer y staff sydd gan Cadw yn bresennol. Pan godir ffioedd o'r fath, bydd Cadw yn cadarnhau'r symiau ac yn eu hawlio oddi wrth y llogwr.

13. Rhaid i'r llogwr glirio'u holl eiddo, gwastraff ac ysbwriel o'r Heneb. Mae Cadw'n cadw'r hawl i adennill unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt am waredu, yn sgil y llogwr neu o ganlyniad i'r gweithgaredd.

14. Mae Cadw'n cadw'r hawl i wrthod neu i wahardd unrhyw weithgaredd y mae'n ei ystyried sy'n dramgwyddus anghyfiawnadwy neu'n debygol o fod.

15. Oni bai y rhoddir rheswm derbyniol i Cadw, gall peidio â defnyddio, ar y dyddiad y cytunwyd arno, y cyfleusterau a drafodwyd, olygu atebolrwydd am dalu costau.

16. Mae Cadw'n cadw'r hawl i godi ffi am ddefnyddio'r Heneb neu i hawlio ad-daliad am golledion o ran taliadau mynediad

17. Mae Cadw'n cadw'r hawl i dynnu cynnig yn ôl pe digwydd i unrhyw rai o'r amodau hyn gael eu torri.